

Papur Pwnc

**Diwygiedig Cynllun  
2018-2033 Datblygu  
Lleol**

Medi 2019

**Amcanestyniadau  
Poblogaeth ac Aelwydydd**

## 1. Rhagarweiniad

1.1 Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)<sup>1</sup> a'i ddiweddarau'n gyson. Mae'r CDLI yn nodi polisiau cynllunio ac yn dyrannu safleoedd ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiad. Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am reoli datblygu sy'n cynnwys prosesu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio gyda'r CDLI yn rhoi arweiniad a rheolaeth o ran datblygu trwy ddarparu'r sylfaen ar gyfer penderfyniadau cyson ac eglur. Wrth gyflawni'r cyfrifoldebau uchod, rydym yn y broses o baratoi CDLI Diwygiedig.

1.2 Ym mis Rhagfyr 2018, cyhoeddodd y Cyngor ei Strategaeth a Ffefrir, a oedd yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer Sir Gaerfyrddin (ac eithrio'r rhan honno o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog). Fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth, comisiynodd y Cyngor Edge Analytics i ddarparu amrywiaeth o senarios demograffig ac economaidd i lywio amcanestyniadau twf tebygol ar gyfer y sir yn y dyfodol yn ystod cyfnod y cynllun 2018-2033. Ar sail yr amrywiaeth o dystiolaeth ddemograffig ac economaidd a gyflwynwyd yn yr adroddiad, roedd y Strategaeth a Ffefrir gan y Cyngor yn nodi gofyniad tai o 9,887 o anheddau (2018-2033), sy'n cyd-fynd yn uniongyrchol â'r senario o ran Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir a gyflwynwyd yn nadansoddiad Edge Analytics.

1.3 Wrth ystyried yr amcanestyniad hwn fel sail ar gyfer y CDLI diwygiedig, roedd yn ceisio alinio nifer o ffactorau i gefnogi'r twf hwnnw, gan gynnwys cyfraddau adeiladu'r gorffennol, creu swyddi, dyheadau economaidd, a chefnogi cadw pobl iau yn y sir, ymysg pethau eraill.

1.4 Wrth i'r Cyngor Sir symud tuag at gyhoeddi'r CDLI Adneuo Diwygiedig, rhagwelwyd y byddai Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcanestyniadau Poblogaeth ac Aelwydydd is-genedlaethol 2017 mewn pryd i'w hystyried ar gyfer y Cynllun Adneuo. Yn sgil yr oedi hwn, roedd y Cyngor wedi ailgomisiynu Edge Analytics i ddiweddarau gwahanol senarios o ran gofynion tai yng ngoleuni amrywiaeth o dystiolaeth newydd, gan gynnwys amcangyfrif poblogaeth canol blwyddyn 2018 Sir Gaerfyrddin a'r fersiwn drafft o'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Roedd adroddiad Edge Analytics hefyd yn ystyried perthynas amcanestyniadau twf cyflogaeth fel rhan o'r gofynion o ran twf tai.

1.5 Nodir y senarios hyn yn yr adroddiad isod, ac fe'u hystyrir yn erbyn y senarios twf economaidd a thai a nodwyd yn flaenorol ac yr ymdriniwyd â hwy yn y Strategaeth a Ffefrir.

---

<sup>1</sup> Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) 2005 yn nodi'r fframwaith a'r cyd-destun cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru.

1.6 Wrth asesu'r senario a ffeirir tebygol, bydd sylw dyledus yn cael ei roi i bolisi cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol ac i ffactorau sy'n codi yn y materion, yr opsiynau a'r amcanion sy'n dod i'r amlwg yn y CDLI. I ategu'r dystiolaeth ar gyfer y Papur hwn, bydd cynnwys y Papur Rôl a Swyddogaeth, y Papur Opsiynau Strategol a Gofodol a'r Weledigaeth a'r Opsiynau Strategol yn cael eu hystyried.

## 2. Proffil Sir Gaerfyrddin

2.1 Gyda phoblogaeth o 187,568 yn 2018, mae Sir Gaerfyrddin yn gartref i oddeutu 6% o gyfanswm poblogaeth Cymru, sy'n golygu mai hwn yw'r pedwerydd Awdurdod Unedol mwyaf yng Nghymru (ar ôl Caerdydd, Abertawe a Rhondda Cynon Taf). Fodd bynnag, o ystyried arwynebedd tir Sir Gaerfyrddin, mae gan yr Awdurdod Unedol ddwysedd poblogaeth o 78 am bob km<sup>2</sup> yn unig, sy'n golygu mai dim ond Powys, Sir Benfro, Gwynedd a Cheredigion sy'n deneuach eu poblogaeth.

2.2 Mae Sir Gaerfyrddin yn ffinio â Sir Benfro i'r Gorllewin, Ceredigion i'r Gogledd, Powys i'r Dwyrain a Chastell-nedd Port Talbot ac Abertawe i'r De-Ddwyrain. Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn gorchuddio tua 9% o Sir Gaerfyrddin, ac amcangyfrifir bod tua 1% o boblogaeth Sir Gaerfyrddin yn byw yn y Parc Cenedlaethol.


2.3 Wrth lunio'r CDLI diwygiedig, mae'r papur Rhagolwg Demograffig yn nodi twf a thueddiadau poblogaeth hanesyddol o fewn y sir ers 2001. Ers 2001, bu cynnydd o +13,916 o bobl ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin, sy'n gynydd o 8% mewn dwy flynedd ar bymtheg. Cofnodwyd twf blynyddol uwch yn y boblogaeth (+0.7% y flwyddyn ar gyfartaledd) cyn 2008, gyda thwf sy'n amlwg yn is yn cael ei gofnodi wedi hynny (+0.2% y flwyddyn ar gyfartaledd). Gellir priodoli cyfansoddiad y cynnydd ym mhoblogaeth y sir i'r canlyniadau canlynol:

- Mae Twf Naturiol yn negyddol – mae mwy o bobl yn marw nag sy'n cael eu geni;
- Mewnllif o fudo mewnol sydd wedi bod yn brif ysgogydd o ran newid yn y boblogaeth;
- Roedd ymfudiad net yn uchel tan 2008, ac yna'n isel. Ers 2013/14 mae'r newid yn y boblogaeth wedi bod yn cynyddu ac mae cynnydd sylweddol wedi bod yn lefel y mewnllif net, gan gyrraedd oddeutu +1600 yn 2017/18 a dangos cynnydd sylweddol o fwy na 700 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- All-lifiaf net mawr ymhlith pobl 15-19 oed wrth iddynt fynd i'r brifysgol mewn ardal arall gyda llif bach o ran pobl 20-24 oed yn dychwelyd;
- Cofnodir mewnllif net ym mhob grŵp oedran hŷn (65+), gan gyfrannu at broffil poblogaeth sy'n heneiddio Sir Gaerfyrddin;
- Roedd canran y boblogaeth 65 oed a hŷn wedi cynyddu o 19% i 23%;
- Roedd cyfartaledd ymfudiad rhyngwladol yn +291 o bobl ers 2001/2002.

### 3. Amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol gan Lywodraeth Cymru - Trosolwg

3.1 Ers cyflwyno'r broses Cynlluniau Datblygu Lleol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi pedwar amcanestyniad poblogaeth ac aelwydydd. Dylanwadwyd ar amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2006 a 2008 gan ystadegau uchel o ran ymfudiad net (mewnol a rhyngwladol) a oedd yn nodi twf sylweddol ar gyfer Sir Gaerfyrddin (fel adlewyrchir yn y CDLI Mabwysiedig). Fodd bynnag, roedd amcanestyniadau Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar y cyfnod 2011-2014 yn adleisio cyfnod ôl-ddirwasgiad a ddangosai duedd mewnfudo is. O ganlyniad mae gofyniad twf disgwylidig mewn aelwydydd llawer yn is ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

3.2 Dengys Ffigur 1 wahaniaeth clir rhwng yr amcangyfrifon twf poblogaeth ym mhob un o'r pedwar amcanestyniad a gyhoeddwyd. Mae hyn yn dangos cyfnewidioldeb amcanestyniadau seiliedig ar dueddiadau, ac ni ellir adnabod gofyniad rhesymol ar gyfer tai yn Sir Gaerfyrddin ar sail y prif amcanestyniadau yn unig, ond yn hytrach dylid ystyried nifer o ffactorau amrywiol sy'n dylanwadu ar newid yn y boblogaeth.



Ffigur 1

#### Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014

3.3 Wrth gasglu'r dystiolaeth gefndir ar gyfer y CDLI diwygiedig, mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 yn darparu'r man cychwyn i ddadansoddi canlyniadau twf yn y dyfodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Yr amcanestyniadau ar gyfer 2014 yw'r rhai diweddaraf sydd ar gael, a hwythau'n ymgorffori amcangyfrif poblogaeth canol

blwyddyn y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn 2014, a rhagdybiaethau ynglŷn â ffrwythlondeb, marwolaethau ac ymfudiad yn seiliedig ar gyfnod hanesyddol o bum mlynedd cyn 2014.

3.4 Dan yr amcanestyniad seiliedig ar 2014, amcangyfrifir y bydd poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn tyfu tua 2.2% dros gyfnod yr amcanestyniad, sef 2014-2039, sy'n gynnydd o +4,004 o bobl. Dros gyfnod CDLI Sir Gaerfyrddin, sef 2018-2033, amcangyfrifir cynnydd o 1.7%, sy'n gyfwerth â 3,207 o bobl yn ychwanegol.

3.5 Mae twf poblogaeth Sir Gaerfyrddin dan amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 yn amlwg yn is nag a amcangyfrifwyd dan bob un o amcanestyniadau blaenorol Llywodraeth Cymru. Roedd amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2011 yn amcangyfrif twf o +11,946 (6.3%) yn y boblogaeth, gydag amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2008 yn amcangyfrif twf uwch o +17,294 (8.9%), tua phum gwaith yn uwch nag a amcangyfrifwyd dan amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014.

3.6 Mae amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 yn seiliedig ar gyfnod o 5 mlynedd o fewnfudiad net is, yn enwedig o ystyried effaith y dirwasgiad, tra bo meintiau aelwydydd heb ostwng mor gyflym ag a dybiwyd yn flaenorol.

3.7 Dan amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 ar gyfer Sir Gaerfyrddin, amcangyfrifir y bydd ymfudiad mewnol net yn parhau i fod yn sbardun allweddol ar gyfer twf, gyda chyfartaledd o +408 y flwyddyn. Er bod hyn yn gyson â llifoedd ymfudiad mewnol yn y 5 mlynedd flaenorol, mae'n amlwg yn is nag a welwyd cyn 2008.

3.8 Amcangyfrifir bod ymfudiad rhyngwladol yn cael effaith fach ond cadarnhaol ar dwf y boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin, gan achosi cynnydd o +137 o flwyddyn ar gyfartaledd. Mae hyn yn adlewyrchu'r hanes o ran ymfudiad rhyngwladol net dros bum mlynedd ar gyfer Sir Gaerfyrddin; fodd bynnag, mae'n gyson yn is na blynyddoedd diweddarach a chynharach y cyfnod hanesyddol.

3.9 I'r gwrthwyneb, amcangyfrifir bod newid naturiol yn cael effaith negyddol ar y newid yn y boblogaeth yn Sir Gaerfyrddin, gyda'r ffigwr yn gostwng ymhellach tuag at ddiwedd cyfnod yr amcanestyniad, gan gael ei sbarduno gan broffil poblogaeth sy'n heneiddio, a chan weithredu ar y cyd â thybiaethau is ynghylch ffrwythlondeb.

## **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft**

3.10 Ym mis Awst 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft sy'n nodi bod Llanelli'n rhan o'r brif ardal dwf ar gyfer rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru (sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Abertawe a Pharciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro). Mae Caerfyrddin hefyd wedi'i nodi'n ganolfan ranbarthol a gefnogir gan ddull 'twf a reolir' i wella ei rôl ranbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod angen 23,400 o gartrefi ychwanegol yn rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru erbyn 2038. Drwy ddosrannu'r gofyniad tai ranbarthol ar sail dosbarthiad y boblogaeth, byddai tua 5,000 o'r 23,400 o gartrefi ychwanegol hyn yn cael eu dyrannu i Sir Gaerfyrddin. Nodir bod y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol drafft wedi'i seilio ar brif amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd 2014 heb ymyrraeth polisi.

## **Senarios Demograffig**

3.11 Mae'r gofyniad i lunio senarios gwahanol ar gyfer twf poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn amlwg gyda chasgliad amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 yn amlygu potensial twf cyfyngedig iawn ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

3.12 Mae'r dystiolaeth gefndir a gyhoeddwyd gan Edge Analytics yn darparu senarios demograffig amrywiol fel sail i'r cyfleoedd twf yn y dyfodol ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Er nad oes un farn bendant ynglŷn â'r twf tebygol a ddisgwylir yn Sir Gaerfyrddin, yn y pen draw bydd cymysgedd o faterion demograffig, materion economaidd a materion polisi lleol yn pennu cyflymder a graddfa'r newid.

3.13 Mae gwaith Edge Analytics hefyd yn cynnwys y senarios uchod ar ardaloedd Sir Gaerfyrddin sydd y tu allan i Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Er gwybodaeth, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn nodi ei strategaeth twf poblogaeth ac aelwydydd ei hunan gan mai ef yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol ar gyfer y rhan o Sir Gaerfyrddin sydd yn y Parc.

3.14 Mae'r senarios demograffig a gafodd ystyriaeth gan Edge Analytics yn adroddiad 2018 yn cynnwys:

- Prif amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar sail data 2014
- Amcanestyniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer mudo, 10 mlynedd ar sail data 2014
- Tymor Hir (16 blynedd o ddata mudo)
- Tymor Canolig (10 mlynedd o ddata mudo)

- Tymor Byr (data mudo y 6 blynedd diwethaf)
- Data ynghylch ymfudiad ar gyfer y cyfnod cyn y dirwasgiad (Data ynghylch ymfudiad o 2001-2008)


3.15 Ym mis Medi 2019, roedd Edge Analytics hefyd yn darparu senarios demograffig yn seiliedig ar y dystiolaeth ddemograffig ddiweddaraf. Mae hyn yn cynnwys cydrannau diweddaraf y newid yn y boblogaeth (genedigaethau, marwolaeth a mudo), patrymau hanesyddol o ran mudo rhyngwladol a mewnol, yn ogystal ag ystadegau ynghylch y tai a gwblhawyd a dadansoddiad diweddaredig o broffil oedran y sir. Roedd y senarios amgen hyn hefyd yn ystyried y wybodaeth fwyaf diweddar ar gyfer 2017/2018.

3.16 Mae'r senarios demograffig amgen a nodwyd gan Edge Analytics (Medi 2019) yn cynnwys:

- **Amrywiolyn Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr** Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod pedair blynedd hanesyddol (2014/15-2017/18) sy'n cyfateb i'r cyfnod pedair blynedd o adfer o ran twf tai.
- **Amrywiolyn Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir** Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod 17 mlynedd hanesyddol llawn (2001/02-2017/18).
- **Amrywiolyn Twf Poblogaeth 10 mlynedd:** Mae'r cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar gyfnod 10 mlynedd hanesyddol, gan anwybyddu'r blynyddoedd afreolaidd yn union ar ôl y cwmp ariannol.

3.17 Caiff y taflwybrau ar gyfer twf y boblogaeth o 2001-2033 ar gyfer yr holl senarios demograffig o astudiaeth 2018 eu cyflwyno yn Ffigur 2. Yn Nhabl 1, caiff pob un o'r senarios o astudiaeth 2018 ei grynhai o ran twf y boblogaeth ac aelwydydd ar gyfer cyfnod y cynllun, sef 2018-2033, ochr yn ochr â'r ymfudiad net blynyddol cyfartalog a chanlyniadau twf anheddau.






Ffigur 2: Y newid ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin 2001-2033

3.18 Caiff taflwybrau twf 2001-2033 ar gyfer pob senario demograffig o astudiaeth 2019 eu cyflwyno yn Ffigur 3. Yn Nhabl 4, caiff pob un o'r senarios ei grynhoi o ran twf y boblogaeth ac aelwydydd ar gyfer cyfnod y cynllun, sef 2018-2033, ochr yn ochr â'r ymfudiad net blynyddol cyfartalog a chanlyniadau twf anheddau.

Carmarthenshire Scenario Outcomes



Ffigur 3. Sir Gaerfyrddin  
Twf Poblogaeth 2001-2033

3.19 Caiff canlyniadau twf anheddau, a gyfrifir gan ddefnyddio'r data o ffigurau'r newid rhagamcanol mewn aelwydydd, eu hystyried yn erbyn y gyfradd anheddau gwag yng Nghyfrifiad 2011, sef 6.3%. Yn ail, mae cyfradd anheddau gwag amrywiadol ychwanegol wedi cael ei chyfrifo o gofnodion treth gyngor Sir Gaerfyrddin ac mae'n dwyn ffigur amrywiadol ar gyfer twf

anheddau. Mae'r gyfradd anheddau gwag hon yn cynnwys canran yr anheddau preifat sy'n ail gartrefi, a'r rhai sydd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis, yn ogystal â chanran y cartrefi cymdeithasol sydd wedi bod yn wag. Ar y cyfan, cyfrifir bod y gyfradd anheddau gwag, o'i thalgrynnu, yn 3.4%. Caiff y gyfradd anheddau gwag hon ei chyfrifo yn ôl y sefyllfa ar 1 Medi 2018. At ddibenion yr adroddiad hwn a chyfeiriad strategaeth dwf y CDLI yn y dyfodol, ystyrir y bydd y gyfradd anheddau gwag amgen o 3.4% yn cael ei defnyddio fel y gyfradd a ffefrir gan y Cyngor, gan mai dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael.

## Senarios Demograffig 2018 Edge Analytics

Demographic Scenarios	Change 2018–2033				Average per year			Total Dwelling Growth (Census VR)	Total Dwelling Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Pre-Recession	26,811	14.2%	13,616	16.6%	2,028	969	939	14,529	14,090
PG Long Term	17,567	9.4%	9,555	11.7%	1,423	680	659	10,195	9,887
PG 10yr	11,755	6.3%	6,992	8.6%	1,043	497	482	7,461	7,236
WG 2014 (10yr Av Mig)	10,842	5.8%	6,322	7.7%	921	450	436	6,746	6,542
PG Short Term	10,691	5.7%	6,807	8.4%	997	484	470	7,263	7,044
WG 2014 (Principal)	3,207	1.7%	3,254	4.0%	546	231	224	3,472	3,367

Rhoddir senarios yn eu safleoedd yn ôl newid yn y boblogaeth. Amcangyfrifir twf mewn anheddau dan y gyfradd anheddau gwag yng Nghyfrifiad 2011 sef 6.3% a chyfrifir cyfradd anheddau gwag amgen o 3.4% gan ddefnyddio data'r dreth gyngor.

Tabl 1 Senario Demograffig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
PG Pre-Recession	26,559	14.2%	13,479	16.6%	2,097	959	930
PG Long Term	17,502	9.4%	9,505	11.7%	1,505	676	656
PG 10yr	11,799	6.3%	6,993	8.6%	1,128	497	482
PG Short Term	10,639	5.7%	6,772	8.4%	1,082	482	467
WG 2014-based (Principal)	2,581	1.4%	2,878	3.6%	481	205	199

Tabl 2 Sir Gaerfyrddin (y tu allan i Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

**Senarios Demograffig 2019 Edge Analytics**

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Long Term	17,991	9.6%	9,842	12.1%	1,448	700	679	10,502	10,185
PG 10yr	15,284	8.1%	8,641	10.6%	1,266	615	596	9,221	8,942
PG Short Term	14,273	7.6%	8,573	10.5%	1,245	610	591	9,147	8,871
WG 2014-based	3,207	1.7%	3,254	4.0%	546	231	224	3,472	3,367

Tabl 3: Canlyniadau Senario Demograffig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Long Term	17,811	9.6%	9,726	12.0%	1,516	692	671	10,375	10,065
PG 10yr	15,115	8.1%	8,538	10.6%	1,337	607	589	9,108	8,835
PG Short Term	14,133	7.6%	8,474	10.5%	1,317	603	585	9,040	8,769
WG 2014-based	2,581	1.4%	2,878	3.6%	481	205	199	3,070	2,978

Tabl 4 Sir Gaerfyrddin (y tu allan i Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)

3.20 Mae'r adran ganlynol yn ystyried pob un o'r senarios demograffig yn ei dro ac yn asesu eu priodoldeb i bennu ffigwr gofyniad tai ar gyfer cyfnod y CDLI diwygiedig.

3.21 Wrth ddod i gasgliad ynghylch y ffigwr gofyniad tai mwyaf priodol, mae papur Rhagolygon Poblogaeth ac Aelwydydd Edge Analytics 2018 yn ystyried yr aliniad rhwng twf y boblogaeth a thwf cyflogaeth. Hynny yw, bydd cynnydd yn y boblogaeth yn cefnogi'r broses o greu swyddi newydd, ychwanegol, a gall y gwaith modelu trwy POPGROUP feintioli nifer y swyddi y gall pob senario demograffig eu cefnogi. Ar gyfer y senarios ychwanegol yn astudiaeth 2019, ystyrir y rhain hefyd yng ngoleuni twf swyddi.


3.22 Wrth bennu ffigwr gofyniad tai, rhaid ystyried strategaethau economaidd amrywiol a'r dyheadau o ran twf economaidd y mae'r Awdurdod Lleol yn gobeithio eu cefnogi.

3.23 Mae'r rhain yn cynnwys:

- Bargaen Ddinesig Bae Abertawe
- Cynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin
- Astudiaeth Cyflogaeth Sectorol Sir Gaerfyrddin.

## Amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014 – (o astudiaeth 2018)

3.24 Mae senario **Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014** yn seilio ei ragdybiaethau ynghylch ymfudiad ar y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2009/10 a 2013/14, pan gofnodwyd mewnfudiad net i Sir Gaerfyrddin a oedd yn amlwg yn is.



### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin

Demographic Scenarios	Change 2018–2033				Average per year			Total Dwelling Growth (Census VR)	Total Dwelling Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
<b>WG 2014 (Principal)</b>	<b>3,207</b>	<b>1.7%</b>	<b>3,254</b>	<b>4.0%</b>	<b>546</b>	<b>231</b>	<b>224</b>	<b>3,472</b>	<b>3,367</b>

Scenario	Population Change 2018–2033				Population Change % 2018–2033			
	0–15	16–64	65+	80+	0–15	16–64	65+	80+
WG 2014-based	-1,373	-7,735	12,315	7,769	-4%	-7%	28%	66%

### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
<b>WG 2014-based (Principal)</b>	<b>2,581</b>	<b>1.4%</b>	<b>2,878</b>	<b>3.6%</b>	<b>481</b>	<b>205</b>	<b>199</b>

3.25 Byddai defnyddio'r duedd hon o ran twf ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn effeithio'n sylweddol ar uchelgais strategol Sir Gaerfyrddin o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Mewn egwyddor, byddai'r newid yn y boblogaeth ar gyfer y rhai dan 65 oed yn un negyddol. Byddai hyn yn cael

effaith sylweddol ar y llafurlu yn Sir Gaerfyrddin gan arwain at all-lif net o weithwyr a thrigolion allan o'r Sir. Mae'r graff uchod ar gyfer y newid yn y boblogaeth yn amlygu'r cynnydd sylweddol yn y garfan oedran 65+ a fyddai'n arwain at ddemograffeg anghytwys yn y Sir.

3.26 485 o dai y flwyddyn yw cyfraddau codi tai yn Sir Gaerfyrddin ers 2007 (ar gyfartaledd). Byddai mabwysiadu'r amcanestyniad sy'n seiliedig ar 2014 fel y gofyniad twf o ran tai yn arwain at lefel is o lawer o dwf, gyda 231 o anheddau y flwyddyn ar gyfartaledd gan ddefnyddio cyfradd anheddau gwag y Cyfrifiad, neu 224 o anheddau y flwyddyn yn ôl y gyfradd anheddau gwag amgen ar gyfer cyfnod y CDLI diwygiedig, sef 2018-2033.

3.27 Gan gydnabod y cyswllt rhwng twf y boblogaeth a thwf swyddi, byddai'r amcanestyniad sy'n seiliedig ar 2014 yn rhwystr i unrhyw gyfle ar gyfer twf yn y sir yn y dyfodol a byddai'n golygu na fyddai modd cyflawni'r ymgyrch corfforaethol dros dwf cyflogaeth newydd, a byddai'n groes i elfennau eraill o strategaeth y CDLI. Byddai'r cyfuniad o ostyngiad yng nghanrannau newid poblogaeth y carfannau 16-64 oed, sef oedran y gweithlu, a chynnydd yn y garfan oedran 65+ yn golygu y byddai gwerth creu swyddi o 55 y flwyddyn yn cael ei adnabod. Gan na fyddai'r senario hwn yn sbarduno'r broses o greu swyddi, byddai'n arwain at all-lif o weithwyr a thrigolion o'r sir. Byddai hyn yn golygu y byddai goblygiadau o ran cadw pobl ifanc yn y sir i fyw a gweithio.

3.28 Roedd y duedd uchod hefyd yn nodi newid mawr mewn aelwydydd yn ardal Sir Gaerfyrddin oedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda newid o 376 o aelwydydd. Mae'r ffigwr hwn fel petai'n ormodol o ystyried natur wledig yr aneddiadau yn ardal Bannau Brycheiniog.


### **Casgliad**

3.29 Byddai defnyddio'r duedd hon o ran twf fel y gofyniad tai ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn effeithio'n niweidiol ar uchelgeisiau strategol y Cyngor o safbwynt economaidd a chymdeithasol. Ar ben hynny, o ystyried yr effeithiau negyddol posibl a amlygir uchod, ni ystyrir ei bod yn ddoeth defnyddio amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014 yn y CDLI diwygiedig.

**3.30 Ni fyddai defnyddio'r senario hwn yn gwireddu Gweledigaeth nac yn cyflawni Amcanion Strategol y Cynllun.**

## Amcanestyniad (Ymfudiad cyfartalog dros 10 mlynedd) Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 (o astudiaeth 2018)

3.31 Mae'r amcanestyniad hwn yn defnyddio tybiaethau Llywodraeth Cymru ynglŷn â newid naturiol sy'n seiliedig ar 2014 ond mae hefyd yn ystyried y cyfnod ymfudiad o 10 mlynedd rhwng 2003/2004 a 2012/13. Mae'r duedd hon yn defnyddio cyfnod ymfudiad cyn ac ar ôl y dirwasgiad, a fyddai'n golygu bod newid o 5.8% a 7.7% yn y boblogaeth ac mewn aelwydydd yn y drefn honno yn ystod cyfnod y cynllun, sef 2018-2033.



### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin

Demographic Scenarios	Change 2018–2033				Average per year			Total Dwelling Growth (Census VR)	Total Dwelling Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
<b>WG 2014 (10yr Av Mig)</b>	<b>10,842</b>	<b>5.8%</b>	<b>6,322</b>	<b>7.7%</b>	<b>921</b>	<b>450</b>	<b>436</b>	<b>6,746</b>	<b>6,542</b>

Scenario	Population Change 2018–2033				Population Change % 2018–2033			
	0–15	16–64	65+	80+	0–15	16–64	65+	80+
WG 2014-based (10yr Average Migration)	413	-2,539	12,968	7,957	1%	-2%	29%	67%

3.32 Mae patrwm y newid yn y boblogaeth o fewn y senario hwn yn debyg (er ar lefel is) i'r un ym mhrif amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014. Mae'r newid yn y boblogaeth a bennwyd ar gyfer y rhai dros 65+, a'r rhai dros 80+ oed yn 29% a 67% yn y drefn honno, tra bo newid negyddol o 1% ar gyfer y rhai yng ngrŵp oedran y llafurlu.

3.33 Byddai'r ymfudiad net ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol yn golygu bod all-lif mawr o fewn y grŵp oedran 15-19, ond mewnlifiad net ym mhob carfan oedran arall. Mae hyn yn duedd debyg i bob senario demograffig arall a ystyriwyd fel rhan o'r ymarfer modelu.

3.34 Byddai'r gofyniad am dai o fewn y senario hwn (cyfradd anheddau gwag Cyfrifiad 2011) yn cyfateb i 450 o anheddau y flwyddyn, a fyddai'n llai na'r hyn sy'n cael ei adeiladu'n flynyddol ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i 6,746 o anheddau dros gyfnod y CDLI, sef 2018-2033.

3.35 Wrth ystyried yr amcanestyniad hwn yn erbyn y gyfradd anheddau gwag amrywiadol o 3.4%, mae'r gofyniad am anheddau o fewn y senario hwn yn gostwng i 436 o anheddau'r flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 6,542 o anheddau dros gyfnod y CDLI, sef 2018-2033.

3.36 Gan gydnabod y cyswllt rhwng twf y boblogaeth a thwf swyddi, byddai'r amcanestyniad (ymfudiad cyfartalog dros 10 mlynedd) sy'n seiliedig ar 2014 yn rhwystr i unrhyw gyfle ar gyfer datblygiad yn y sir yn y dyfodol a byddai'n golygu na fyddai modd cyflawni'r ymgyrch corfforaethol dros dwf cyflogaeth newydd, a byddai'n groes i elfennau eraill o strategaeth y CDLI. Byddai'r cyfuniad o ostyngiad yng nghanrannau newid poblogaeth y carfannau 16-64 oed, sef oedran y gweithlu, a chynnydd yn y garfan oedran 65+ yn golygu y byddai gwerth creu swyddi ychwanegol o 198 y flwyddyn i'r sir yn ôl yr amcangyfrif. Gan na fyddai'r senario hwn yn sbarduno'r broses o greu swyddi, byddai'n arwain at all-lif o weithwyr a thrigolion o'r sir. Byddai hyn yn golygu y byddai goblygiadau o ran cadw pobl ifanc yn y sir i fyw a gweithio.


### **Casgliad**

3.37 O ystyried yr effeithiau negyddol posibl a amlygir uchod, ni ystyrir ei bod yn ddoeth defnyddio amcanestyniad Llywodraeth Cymru (ymfudiad cyfartalog dros 10 mlynedd) sy'n seiliedig ar 2014 fel yr opsiwn twf ar gyfer y CDLI diwygiedig. .

3.38 **Ni fyddai'n gwireddu Gweledigaeth nac yn cyflawni Amcanion Strategol y Cynllun.**

## Amcanestyniad Tymor Byr o Dwf y Boblogaeth (o astudiaeth 2018)

3.39 Mae'r senario o ran Twf y Boblogaeth yn y Tymor Byr yn seiliedig ar gyfraddau ymfudiad mewnol a rhagdybiaethau ynglŷn â llif ymfudiad rhyngwladol o gyfnod hanesyddol o chwe blynedd (2011/12-2016/17). Mae hwn yn gyfnod tebyg i amcanestyniad Llywodraeth Cymru (h.y. 5-6 blynedd), ond mae'n cynnwys y tair blynedd ddiweddaraf o ddata.



### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin

Demographic Scenarios	Change 2018–2033				Average per year			Total Dwelling Growth (Census VR)	Total Dwelling Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Short Term	10,691	5.7%	6,807	8.4%	997	484	470	7,263	7,044

Scenario	Population Change 2018–2033				Population Change % 2018–2033			
	0–15	16–64	65+	80+	0–15	16–64	65+	80+
PG Short Term	-533	-4,126	15,350	8,184	-2%	-4%	35%	71%

### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
PG Short Term	10,639	5.7%	6,772	8.4%	1,082	482	467



3.40 Mae'r duedd hon yn cynyddu canran y newid yn y boblogaeth ac mewn aelwydydd o'r un yn amcanestyniad Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar 2014, ond mae'r all-lif ymhlith y rhai yn y garfan oedran 15-19 yn cynyddu. Mae'r newid yn y boblogaeth a bennwyd ar gyfer y rhai dros 65+, a'r rhai dros 80+ oed yn 35% a 71% yn y drefn honno, tra bo newid negyddol o 4% ar gyfer y rhai yng ngrŵp oedran y llafurlu.

3.41 Byddai'r ymfudiad net ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol yn cynnwys all-lif mawr o fewn y garfan oedran 15-19, all-lif bach yn y garfan oedran 25-29, ond mewnlifiad net ym mhob carfan oedran arall.

3.42 Byddai'r gofyniad am dai o fewn y senario hwn (cyfradd anheddau gwag Cyfrifiad 2011) yn cyfateb i 484 o anheddau y flwyddyn, a fyddai'n llai na'r hyn sy'n cael ei adeiladu'n flynyddol ar hyn o bryd yn Sir Gaerfyrddin ar gyfartaledd. Mae hyn yn cyfateb i 7,263 o anheddau dros gyfnod y CDLI, sef 2018-2033.

3.43 Wrth ystyried yr amcanestyniad hwn yn erbyn y gyfradd anheddau gwag amrywiadol o 3.4%, mae'r gofyniad am anheddau o fewn y senario hwn yn gostwng i 470 o anheddau'r flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 7,044 o anheddau dros gyfnod y CDLI, sef 2018-2033.

3.44 Gan gydnabod y cyswllt rhwng twf y boblogaeth a thwf swyddi, byddai'r amcanestyniad tymor byr o dwf y boblogaeth yn rhwystr i unrhyw gyfle ar gyfer datblygiad yn y sir yn y dyfodol a byddai'n golygu na fyddai modd cyflawni'r ymgyrch corfforaethol dros dwf cyflogaeth newydd, a byddai'n groes i elfennau eraill o strategaeth y CDLI. Byddai'r cyfuniad o ostyngiad yng nghanrannau newid poblogaeth y carfannau 16-64 oed, sef oedran y gweithlu, a chynnydd yn y garfan oedran 65+ yn golygu y byddai gwerth creu swyddi ychwanegol o 126 y flwyddyn i'r sir yn ôl yr amcangyfrif. Gan na fyddai'r senario hwn yn sbarduno'r broses o greu swyddi, byddai'n arwain at all-lif o weithwyr a thrigolion o'r sir. Byddai hyn yn golygu y byddai goblygiadau o ran cadw pobl ifanc yn y sir i fyw a gweithio a byddai'n methu â chyrraedd y targedau a nodir yng *Nghynllun Adfywio Strategol* Sir Gaerfyrddin.

3.45 O ran perthynas Sir Gaerfyrddin o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, roedd y senario hwn yn nodi cynnydd o 35 o aelwydydd o fewn Bannau Brycheiniog dros gyfnod y Cynllun. Yn hyn o beth, mae hyn yn cyfateb i lai nag 1% o'r newid cyffredinol mewn aelwydydd o fewn y sir.


### **Casgliad**

3.46 O ystyried yr effeithiau negyddol posibl a amlygir uchod, ni ystyrir ei bod yn ddoeth defnyddio'r amcanestyniad Tymor Byr o Dwf y Boblogaeth fel yr opsiwn twf ar gyfer y CDLI diwygiedig.

3.47 **Ni fyddai'n gwireddu Gweledigaeth nac yn cyflawni Amcanion Strategol y Cynllun.**

## Amcanestyniad Twf Poblogaeth 10 mlynedd (o astudiaeth 2018)

3.48 Mae'r amcanestyniad 10 mlynedd o Dwf y Boblogaeth yn defnyddio'r duedd ymfudiad dros y 10 mlynedd flaenorol, sy'n ystyried dwy flynedd gyntaf y cyfnod cyn y dirwasgiad, ond gyda'r mwyafrif o'r data ynghylch ymfudiad yn ymwneud â'r blynyddoedd ers 2008. Mae'r duedd hon yn cynnig rhagolwg ychydig yn fwy optimistaidd na'r un a ystyriwyd yn y data ynghylch ymfudiad dros 10 mlynedd o amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014, ac un sy'n debyg i Senario'r Amcanestyniad Tymor Byr o Dwf y Boblogaeth. Nid yw'r senario hwn yn nodi allfudiad net yn y carfannau oedran 15-19 a 25-29, gyda mewnfudiad net tebyg yn y carfannau 30+ oed.



### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin

Demographic Scenarios	Change 2018–2033				Average per year			Total Dwelling Growth (Census VR)	Total Dwelling Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG 10yr	11,755	6.3%	6,992	8.6%	1,043	497	482	7,461	7,236

Scenario	Population Change 2018–2033				Population Change % 2018–2033			
	0–15	16–64	65+	80+	0–15	16–64	65+	80+
PG 10yr	183	-2,932	14,503	8,299	1%	-3%	33%	72%

### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
PG 10yr	11,799	6.3%	6,993	8.6%	1,128	497	482

3.49 Mae'r duedd hon yn cynyddu canran y newid yn y boblogaeth ac mewn aelwydydd o'r un yn amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014, ond mae'r all-lif ymhlith y rhai yn y garfan oedran 15-19 yn cynyddu. Mae'r newid yn y boblogaeth a bennwyd ar gyfer y rhai dros 65+, a'r rhai dros 80+ oed yn 33% a 72% yn y drefn honno, tra bo newid negyddol o 3% ar gyfer y rhai yng ngrŵp oedran y llafurlu.

3.50 Byddai'r ymfudiad net ym mhoblogaeth Sir Gaerfyrddin yn y dyfodol yn cynnwys all-lif mawr o fewn y garfan oedran 15-19, all-lif bach yn y garfan oedran 25-29, ond mewnlifiad net ym mhob carfan oedran arall.

3.51 Gan ddefnyddio'r gyfradd anheddau gwag yng Nghyfrifiad 2011, byddai'r senario hwn, ar gyfartaledd yn darparu 497 o anheddau y flwyddyn o fewn cyfnod y CDLI diwygiedig, sef 2018-2033, gyda'r gyfradd anheddau gwag amrywiadol yn amlygu darpariaeth o 482 o anheddau'r flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 7,461 o anheddau a 7,236 o anheddau dros gyfnod y CDLI diwygiedig.

3.52 Gan gydnabod y cyswllt rhwng twf y boblogaeth a thwf swyddi, byddai'r amcanestyniad sy'n seiliedig ar 10 mlynedd yn rhwystr i unrhyw gyfle ar gyfer twf yn y sir yn y dyfodol a byddai'n golygu na fyddai modd cyflawni'r ymgyrch corfforaethol dros dwf cyflogaeth newydd, a byddai'n groes i elfennau eraill o strategaeth y CDLI. Byddai'r cyfuniad o ostyngiad yng nghanrannau newid poblogaeth y carfannau 16-64 oed, sef oedran y gweithlu, a chynnydd yn y garfan oedran 65+ yn golygu y byddai gwerth creu swyddi ychwanegol o 178 y flwyddyn i'r sir yn ôl yr amcangyfrif. Gan na fyddai'r senario hwn yn sbarduno'r broses o greu swyddi, byddai'n arwain at all-lif o weithwyr a thrigolion o'r sir. Byddai hyn yn golygu y byddai goblygiadau o ran cadw pobl ifanc yn y sir i fyw a gweithio a byddai'n methu â chyrraedd y targedau a nodir yng *Nghynllun Adfywio Strategol* Sir Gaerfyrddin.

3.53 O ran perthynas Sir Gaerfyrddin o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r senario hwn yn nodi gostyngiad o un aelwyd o fewn Bannau Brycheiniog dros gyfnod y Cynllun, er bod y boblogaeth yn cynyddu gan 44 o bobl. Yn yr achos hwn, nid oes fawr ddim gwahaniaeth rhwng Sir Gaerfyrddin gyfan a'r Sir Gaerfyrddin sydd y hwnt i ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

### **Casgliad**


3.54 Er bod cyflawni 497 neu 482 o anheddau'r flwyddyn yn debyg i'r hyn a gyflawnwyd ers 2007, nid yw'n cynnig yr hyblygrwydd i fanteisio ar y blynyddoedd hynny pan fo gweithgarwch cyflawni tai a'r farchnad dai wedi bod yn fwy ffyniannus. Ers 2015, mae gweithgarwch cyflawni tai wedi bod yn 507 o anheddau'r flwyddyn ar gyfartaledd a byddai cyfyngu ar y gofyniad am dai

trwy'r senario hwn yn cyfyngu ar uchelgeisiau economaidd Sir Gaerfyrddin o ran creu swyddi a darparu cyfleoedd i oedolion iau o fewn y Sir fyw a gweithio.

**3.55 Ni fyddai'r senario hwn yn gwireddu Gweledigaeth nac yn cyflawni Amcanion Strategol y Cynllun.**

## Amcanestyniad Tymor Hir o Dwf y Boblogaeth (o astudiaeth 2018)

3.56 Mae senario'r Amcanestyniad Tymor Hir o Dwf y Boblogaeth yn seiliedig ar gyfraddau ymfudiad mewnol a thybiaethau ynglŷn â llif ymfudiad rhyngwladol o gyfnod hanesyddol o un mlynedd ar bymtheg (2001/02-2016/17). Mae'r cyfnod hwn yn ystyried llifoedd mewnfydiad net uchel yn ystod 2001-2008 a'r mewnfydiad net is ar ôl 2008.



### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin

Demographic Scenarios	Change 2018–2033				Average per year			Total Dwelling Growth (Census VR)	Total Dwelling Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Long Term	17,567	9.4%	9,555	11.7%	1,423	680	659	10,195	9,887

Scenario	Population Change 2018–2033				Population Change % 2018–2033			
	0–15	16–64	65+	80+	0–15	16–64	65+	80+
PG Long Term	1,139	592	15,836	8,747	3%	1%	36%	75%

### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
PG Long Term	17,502	9.4%	9,505	11.7%	1,505	676	656

3.57 Dan senario'r **Amcanestyniad Tymor Hir o Dwf y Boblogaeth**, amcangyfrifir llifoedd ymfudiad net uwch (+1,423 o bobl y flwyddyn ar gyfartaledd), a hynny'n arwain at newid uwch yn

y boblogaeth (9.4%). O ran y modd y caiff ei gynrychioli yn y carfannau oedran, ceir ymfudiad cadarnhaol net ym mhob carfan oedran ac eithrio 15-19 oed.

3.58 Ceir gostyngiad yn y newid yn y boblogaeth rhwng y garfan oedran 25-34 a'r garfan oedran 50-59; fodd bynnag, o ran y newid cyffredinol yn y boblogaeth ar gyfer carfan y llafurlu, ceir cynnydd o 1%. Mae'r newid yn y boblogaeth a bennwyd ar gyfer y rhai dros 65+, a'r rhai sydd dros 80+ oed yn 36% a 75% yn y drefn honno.

3.59 Wrth ddefnyddio'r gyfradd anheddau gwag yng Nghyfrifiad 2011, byddai'r senario hwn, ar gyfartaledd yn darparu 680 o anheddau'r flwyddyn o fewn cyfnod y CDLI diwygiedig, sef 2018-2033, gyda'r gyfradd anheddau gwag amrywiadol yn amlygu darpariaeth o 659 o anheddau'r flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 10,195 o anheddau a 9,887 o anheddau dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

3.60 Wrth gydnabod y cyswllt rhwng twf poblogaeth a thwf swyddi, mae'r senario twf poblogaeth hirdymor yn darparu rhagolwg mwy optimistaidd o ran ceisio cyflawni'r targedau a amlinellwyd yng *Nghynllun Adfywio Strategol* Sir Gaerfyrddin gyda mwy o gynnydd poblogaeth yn cefnogi creu tua 353 o swyddi ychwanegol y flwyddyn. Byddai hyn yn cyfateb i 5,295 o swyddi ychwanegol dros gyfnod y CDLI diwygiedig.

3.61 O ran perthynas Sir Gaerfyrddin ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r senario hwn yn nodi cynnydd o 50 o aelwydydd ym Mannau Brycheiniog dros gyfnod y Cynllun. Yn hyn o beth, mae hyn yn cyfateb i lai nag 1% o'r newid cyffredinol mewn aelwydydd yn y sir, neu 3 annedd y flwyddyn.

### **Casgliad**

3.62 O ran cyhoeddi'r Strategaeth a Ffebrir, ystyriwyd mai'r senario hwn oedd y mwyaf priodol i Sir Gaerfyrddin. Roedd yn darparu rhagolygon cadarnhaol a darpariaeth briodol ar gyfer darparu tai yn y sir. 485 o dai y flwyddyn yw'r cyfraddau codi tai yn Sir Gaerfyrddin ers 2007 (ar gyfartaledd) gyda 507 o anheddau'r flwyddyn ar gyfartaledd yn cael eu cyflawni yn y pedair blynedd ers 2015. Byddai hyn yn caniatáu'r hyblygrwydd i hybu twf cynaliadwy mewn tai ac yn cefnogi uchelgeisiau economaidd y sir.


3.63 Er bod y senario hwn yn nodi twf uwch yn y boblogaeth na phob senario a ystyriwyd heblaw am un, bydd yn golygu bod pobl 15-19 yn dal i adael y sir; fodd bynnag, mae'n nodi mewnfudiad net cyson ym mhob carfan oedran arall a fyddai'n arwain at ragolwg ddemograffig gytbwys ar gyfer y sir.

**3.64 Byddai defnyddio'r senario hwn o gymorth i wireddu Gweledigaeth a chyflawni Amcanion Strategol y Cynllun.**



## Amcanestyniad Twf cyn y Dirwasgiad (o astudiaeth 2018)

3.65 Mae senario'r Amcanestyniad o Dwf y Boblogaeth yn ôl y Cyfnod Cyn y Dirwasgiad yn seiliedig ar gyfraddau ymfudiad mewnol a thybiaethau ynglŷn ag ymfudiad rhyngwladol ar gyfer y cyfnod cyn dirwasgiad 2008 (2001/02-2007/08), pan gofnodwyd llifoedd mewnfydiad uwch i Sir Gaerfyrddin. O ganlyniad, mae'r amcangyfrif o ymfudiad net yn y dyfodol ar ei uchaf dan yr Amcanestyniad o Dwf y Boblogaeth yn ôl y Cyfnod Cyn y Dirwasgiad.



### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin

Demographic Scenarios	Change 2018–2033				Average per year			Total Dwelling Growth (Census VR)	Total Dwelling Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Pre-Recession	26,811	14.2%	13,616	16.6%	2,028	969	939	14,529	14,090

Scenario	Population Change 2018–2033				Population Change % 2018–2033			
	0–15	16–64	65+	80+	0–15	16–64	65+	80+
PG Pre-Recession	2,705	6,218	17,888	9,512	8%	6%	40%	82%

### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Scenario	Change 2018–2033				Average per year		
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)
PG Pre-Recession	26,559	14.2%	13,479	16.6%	2,097	959	930

3.66 Er y bydd defnyddio senario â thwf uwch yn y boblogaeth yn golygu bod pobl 15-19 yn dal i adael y sir, mae mwy'n dychwelyd yn y garfan oedran 20-24 sy'n arwain at ragolwg ddemograffig gytbwys ar gyfer y sir. Byddai newid sylweddol yn y boblogaeth hefyd a fyddai'n golygu bod cynnydd o 40% yn y garfan oedran 65+, a chynnydd o 82% yn y garfan oedran 80+.

3.67 Gan ddefnyddio'r gyfradd anheddau gwag yng Nghyfrifiad 2011, byddai'r senario hwn, ar gyfartaledd yn darparu 969 o anheddau'r flwyddyn o fewn cyfnod y CDLI diwygiedig, sef 2018-2033, gyda'r gyfradd anheddau gwag amrywiadol yn amlygu darpariaeth o 939 o anheddau'r flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 14,529 o anheddau a 14,090 o anheddau dros gyfnod y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

3.68 Wrth ddefnyddio'r cyswllt rhwng twf poblogaeth a thwf swyddi, byddai'r senario twf poblogaeth cyn y dirwasgiad yn darparu rhagolwg mwy optimistaidd o ran ceisio cyflawni'r targedau a amlinellwyd yng Nghynllun Adfywio Strategol Sir Gaerfyrddin, gyda newid poblogaeth mwyaf y senarios demograffig yn cefnogi creu tua 632 o swyddi ychwanegol y flwyddyn. Byddai hyn yn cyfateb i 9,480 o swyddi ychwanegol dros gyfnod y CDLI diwygiedig.

3.69 O ran perthynas Sir Gaerfyrddin ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r senario hwn yn nodi cynnydd o 137 o aelwydydd ym Mannau Brycheiniog dros gyfnod y Cynllun.

### **Casgliad**

3.70 Byddai defnyddio senario'r amcanestyniad hwn fel targed gofynion twf tai o fewn y CDLI diwygiedig yn gymesur â'r strategaeth twf yn y CDLI mabwysiedig. Er y byddai'r senario hwn yn uchelgeisiol o ran hybu dyheadau economaidd, byddai pennu gofyniad mor uchel am dwf trwy senario'r Amcanestyniad o Dwf y Boblogaeth yn ôl y Cyfnod cyn y Dirwasgiad yn arwain at strategaeth twf na ellir ei chyflawni ac sy'n anghynaliadwy.

**3.71 Ni fyddai'r senario hwn yn gwireddu Gweledigaeth nac yn cyflawni Amcanion Strategol y Cynllun.**

### Twf Poblogaeth Tymor Byr – Amrywiolyn (o astudiaeth 2019)

3.72 Mae'r amrywiolyn Twf Poblogaeth Tymor Byr (2019) yn ystyried cyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaeth ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar y cyfnod pedair blynedd hanesyddol (2014/15-2017/18) sy'n cyfateb i'r cyfnod pedair blynedd o adfer o ran twf tai. Dyma'r senario byrraf sy'n seiliedig ar duedd o blith yr holl rai y rhoddir ystyriaeth iddynt yn y papur hwn.

### Canlyniadau Senario Demograffig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Short Term	14,273	7.6%	8,573	10.5%	1,245	610	591	9,147	8,871

### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Short Term	14,133	7.6%	8,474	10.5%	1,317	603	585	9,040	8,769

3.73 Yn y senario Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr, rhagwelir y newid lleiaf yn y boblogaeth dros gyfnod y cynllun, sy'n gyson â'r senarios yn adroddiad blaenorol 2018 Edge Analytics. Dan y senario hwn, mae'r twf amcangyfrifedig yn y boblogaeth yn 7.6% dros gyfnod y cynllun, o gymharu â 5.7% yn flaenorol. Mae hyn o ganlyniad i'r cynnydd sydyn o ran mudo mewnol net yn 2017/18 sydd bellach wedi'i gynnwys yn y senario hwn, a'r ffocws ar y pedair blynedd o adfer o ran twf tai. Byddai'r twf amcangyfrifedig yn y boblogaeth yn cefnogi twf anheddau o gyfanswm o 9,147 dros gyfnod y cynllun, neu 8,871 gan ddefnyddio'r gyfradd gwacter amgen. Byddai hyn yn gofyn am dwf anheddau blynyddol ar gyfartaledd o +610/+591 o anheddau y flwyddyn (ayf).

3.74 O ran yr ardal o Sir Gaerfyrddin sy'n rhan o Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r cyfartaledd seiliedig ar Gyfradd Anheddau Gwag y Cyfrifiad a'r Gyfradd Amgen o 3.4% yn cyfateb i ofyniad tai o 7 annedd a 6 annedd.

3.75 O ran cefnogi twf economaidd, mae'r amcanestyniadau twf cyflogaeth yn amlygu y byddai'r senario hwn yn cefnogi ffigwr twf cyflogaeth blynyddol o 288 o swyddi. Mae hyn yn cyfateb i 4,320 o swyddi dros gyfnod y Cynllun.

### Casgliad

3.76 At ei gilydd, byddai defnyddio'r senario hwn yn darparu rhagolwg cadarnhaol a darpariaeth briodol ar gyfer codi tai yn y sir. Byddai'n caniatáu'r hyblygrwydd i hybu twf

cynaliadwy o ran tai, ac mae'n cael llai o effaith ar gefnogi uchelgeisiau economaidd y sir na senarios eraill. Ni fyddai gwerth creu swyddi o 288 o swyddi y flwyddyn, neu 4,320 o swyddi dros gyfnod y CDLI yn bodloni uchelgeisiau Cynllun Adfywio'r Cyngor.

3.77 Mae'r senario Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr yn 2019 llawer yn uwch na'r hyn a ystyriwyd yn adroddiad 2018 gan ei fod yn defnyddio 4 blynedd o ddata yn hytrach na 6 blynedd. Mae hyn yn dangos pa mor anwadal yw rhagdybiaeth ar sail tueddiadau dros gyfnod byrrach o amser.

**3.78 Ni fyddai'r senario hwn yn gwireddu Gweledigaeth nac yn cyflawni Amcanion Strategol y Cynllun.**

### Twf poblogaeth tymor hir – Amrywiolyn (o astudiaeth 2019)

3.79 Mae senario'r Amcanestyniad Tymor Hir o Dwf y Boblogaeth yn seiliedig ar gyfraddau ymfudiad mewnol a thybiaethau ynglŷn â llif ymfudiad rhyngwladol o gyfnod hanesyddol o dwy flynedd ar bymtheg (2001/02-2017/18). Mae'r amrywiolyn hwn yn defnyddio un flwyddyn arall o ddata (2017/18) o gymharu â'r senario Twf Poblogaeth Tymor Hir gwreiddiol yn adroddiad 2018 Edge Analytics. Mae ffigwr 2017/18 ar gyfer mudo yn cynyddu'r newid cyffredinol yn y boblogaeth a'r aelwydydd o dan y senario hwn.

#### Canlyniadau Senario Demograffig Sir Gaerfyrddin 2018-2033

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Long Term	17,991	9.6%	9,842	12.1%	1,448	700	679	10,502	10,185

#### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG Long Term	17,811	9.6%	9,726	12.0%	1,516	692	671	10,375	10,065

3.80 O'r tri senario sy'n seiliedig ar dueddiadau yn astudiaeth 2019, yn y senario Twf Poblogaeth yn y Tymor Hir y ceir y twf mwyaf yn y boblogaeth, aelwydydd ac anheddau o dipyn. Mae hyn o ganlyniad i'r duedd ddiweddar o ran mudo mewnol net cymharol uchel, ynghyd â chyfansymiau mudo uwch cyn y dirwasgiad, ac maent i gyd yn cael eu cynnwys yn y senario hwn. Mae cyfanswm twf anheddau yng nghyfnod y cynllun yn fwy na 10,000 dan bob cyfradd anheddau gwag, sy'n cyfateb i 679 o anheddau y flwyddyn gan ddefnyddio'r gyfradd anheddau gwag is.

3.81 O ran yr ardal o Sir Gaerfyrddin sy'n rhan o Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r twf cyfartalog mewn anheddau seiliedig ar Gyfradd Anheddau Gwag y Cyfrifiad a'r Gyfradd Amgen o 3.4% yn cyfateb i ofyniad tai o 8 annedd y flwyddyn.

3.82 O ran cefnogi twf economaidd, mae'r amcanestyniadau twf cyflogaeth yn nodi y byddai'r senario hwn yn cefnogi ffigur twf cyflogaeth blynyddol o 439 o swyddi. Mae hyn yn cyfateb i 6,585 o swyddi dros gyfnod y Cynllun.

### Casgliad

3.83 Byddai defnyddio'r amcanestyniad hwn yn darparu rhagolwg cadarnhaol a darpariaeth briodol ar gyfer codi tai yn y sir. Mae'r cynnydd mewn mudo i Sir Gaerfyrddin a welwyd yn amcangyfrifon canol blwyddyn 2018 yn cynyddu rhyw ychydig ar yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd o'r hyn a ystyriwyd yn adroddiad senario Twf Poblogaeth Tymor Hir 2018. Nid yw'r niferoedd gofyniad tai yn wahanol iawn i'r rhai a fernid fel yr opsiwn a ffafriwyd yn y Strategaeth a Ffefrir, a byddai'n caniatáu'r hyblygrwydd i ysgogi twf cynaliadwy mewn tai ac i gefnogi uchelgeisiau economaidd y sir.

**3.84 Byddai'r senario hwn yn gwireddu Gweledigaeth nac yn cyflawni Amcanion Strategol y Cynllun.**

**Twf poblogaeth 10 mlynedd – Amrywiolyn (o astudiaeth 2019)**

3.85 Mae'r senario twf poblogaeth 10 mlynedd yn rhoi sylw i gyfraddau mudo mewnol a'r rhagdybiaethau ynghylch llif mudo rhyngwladol yn seiliedig ar gyfnod 10 mlynedd hanesyddol, gan anwybyddu'r blynyddoedd afreolaidd yn union ar ôl y cwmp ariannol.

**Canlyniadau Senario Demograffig Sir Gaerfyrddin 2018-2033**

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG 10yr	15,284	8.1%	8,641	10.6%	1,266	615	596	9,221	8,942

**Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin y tu allan i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

Scenario	Change 2018 - 2033				Average per year			Total Dwellings Growth (Census VR)	Total Dwellings Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
PG 10yr	15,115	8.1%	8,538	10.6%	1,337	607	589	9,108	8,835

3.86 Mae'r senario Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd yn golygu poblogaeth fwy o gymharu â'r senario Twf Poblogaeth yn y Tymor Byr. Mae hyn oherwydd ei fod yn cynnwys amcangyfrifon mudo yn y blynyddoedd yn union cyn y dirwasgiad a'r cyfnod adfer mwy diweddar. Mae hyn yn golygu twf anheddau blynyddol ar gyfartaledd o +615 ayf a +596 ayf gan ddefnyddio'r gyfradd eiddo gwag amgen.

3.87 O ran yr ardal o Sir Gaerfyrddin sy'n rhan o Ardal Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, mae'r cyfartaledd seiliedig ar Gyfradd Anheddau Gwag y Cyfrifiad a'r Gyfradd Amgen o 3.4% yn cyfateb i ofyniad tai o 8 annedd a 7 annedd.

3.88 O ran cefnogi twf economaidd, mae'r amcanestyniadau twf cyflogaeth yn nodi y byddai'r senario hwn yn cefnogi ffigur twf cyflogaeth blynyddol o 354 o swyddi. Mae hyn yn cyfateb i 5,310 o swyddi dros gyfnod y Cynllun.

**Casgliad**

3.89 At ei gilydd, byddai defnyddio'r senario hwn yn darparu rhagolwg cadarnhaol a darpariaeth briodol ar gyfer codi tai yn y sir. Byddai'n caniatáu'r hyblygrwydd i hybu twf cynaliadwy mewn tai ac yn cefnogi uchelgeisiau economaidd y sir. Mae'r berthynas rhwng creu swyddi a chynnydd yn y boblogaeth yn fwy cadarnhaol na'r senario a nodwyd yn y Strategaeth a

Ffeirir gan fod y gofyniad o ran aelwydydd yn is, gyda thwf cyfrannol y boblogaeth oedran gweithio yn uwch.

3.90 Er y bydd defnyddio senario â thwf uwch yn y boblogaeth yn golygu bod pobl 15-19 yn dal i adael y sir, mae mwy'n dychwelyd yn y garfan oedran 20-24 sy'n arwain at ragolwg ddemograffig gytbwys ar gyfer y sir yn y dyfodol.

### **3.91 Byddai defnyddio'r senario hwn o gymorth i wireddu Gweledigaeth a chyflawni Amcanion Strategol y Cynllun**



## Senarios a arweinir gan Gyflogaeth (o astudiaeth 2018)

3.92 Fel rhan o'r papur Rhagolwg Poblogaeth ac Aelwydydd, mae dau senario ar gyfer y gofyniad am dai yn y dyfodol wedi cael eu hystyried yn erbyn Astudiaeth Sectorau Cyflogaeth y Cyngor. Mae'r astudiaeth hon yn defnyddio cyfradd twf flynyddol sefydlog ar gyfer sectorau cyflogaeth allweddol a fyddai'n cynyddu potensial economaidd Sir Gaerfyrddin i'r eithaf. Mae'r twf a ragwelir yn cyfateb i amcangyfrif o 1,245 o swyddi'r flwyddyn mewn naw sector cyflogaeth sy'n flaenoriaeth.

3.93 Wrth amcangyfrif y gofyniad am dai y mae ei angen i wireddu'r dyhead economaidd hwn, gwneir addasiad o 5.1% i'r cyfanswm twf cyflogaeth i roi cyfrif am swyddi dwbl. Mae hyn yn rhoi twf cyflogaeth blynyddol cyfartalog o 1,182 o swyddi.

### Canlyniad Senario Sir Gaerfyrddin

Employment-led Scenarios	Change 2018–2033				Average per year			Total Dwelling Growth (Census VR)	Total Dwelling Growth (Alt. VR)
	Population Change	Population Change %	Households Change	Households Change %	Net Migration	Dwellings (Census VR)	Dwellings (Alt. VR)		
CR Fixed	42,050	22.2%	19,027	23.2%	2,814	1,354	1,313	20,303	19,690
CR Reducing	36,481	19.3%	16,810	20.5%	2,483	1,196	1,160	17,938	17,396

Tabl2


3.94 Mae'r model POPGROUP yn ystyried ffactorau megis cyfradd gweithgarwch economaidd, cyfraddau diweithdra a chymarebau cymudo sy'n meintioli effaith ddemograffig taflwybr twf economaidd. Mae cymhareb gymudo Sir Gaerfyrddin yn elfen allweddol o'r cydbwysedd rhwng cyflogaeth leol a'r llafurlu sydd ar gael hefyd. Yng Nghyfrifiad 2011 cofnodwyd fod 81,402 o weithwyr yn byw yn Sir Gaerfyrddin a 74,569 o bobl yn gweithio yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn dangos all-lif net o weithwyr i ardaloedd awdurdodau lleol eraill.

3.95 Mae'r tabl uchod yn nodi dau senario amrywiadol ar gyfer twf cyflogaeth:

- **CG Sefydlog** – mae hwn yn cymhwyso'r gymhareb gymudo yng Nghyfrifiad 2011, sef 1.09. Mae hyn yn tybio bod y lefel gymudo'n sefydlog trwy gydol cyfnod y cynllun.
- **CG Ostyngol** – mae'r senario hwn yn tybio y ceir gostyngiad o 1.09 i 1.06 erbyn diwedd cyfnod y cynllun. Dynodir y gostyngiad hwn gan gyfradd uwch o ran cadw'r llafurlu yn Sir Gaerfyrddin wrth i'r cynllun fynd rhagddo tuag at 2033.

3.96 Fel a ddynodir yn nhabl 2, er mwyn cyrraedd y targed o 1,245 o swyddi'r flwyddyn a amlygir yn yr Astudiaeth Sectorau Cyflogaeth, byddai angen i dwf y boblogaeth yn y sir fod yn sylweddol. Byddai angen i dwf y boblogaeth yn y senarios CG Sefydlog a CG Ostyngol gyfateb i 42,050 a 36,481 o bobl yn y drefn honno.

3.97 Mae cymharu'r newid yn y boblogaeth yn ôl grŵp oedran dan y senarios â'r twf uchaf ac isaf yn y boblogaeth (Senario Seiliedig ar Gyflogaeth - CG Sefydlog ac Amcanestyniad Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar 2014 yn y drefn honno), yn dangos nad yw ymfudiad yn gallu gwneud rhyw lawer i newid maint y grwpiau oedran hŷn ond ei fod yn gallu cynyddu maint grwpiau oedran y llafurlu.



3.98 Wrth droi hyn yn nifer yr anheddau sy'n ofynnol yn ystod cyfnod y CDLI diwygiedig, byddai hyn yn cyfateb i 1,354 a 1,196 o anheddau'r flwyddyn gan ddefnyddio cyfradd anheddau gwag Cyfrifiad 2011. Byddai hyn yn cyfateb i 20,303 ac 17,938 o anheddau dros gyfnod y CDLI diwygiedig.

3.99 Gan ddefnyddio'r gyfradd anheddau gwag o 3.4%, byddai hyn yn cyfateb i'r senario CG Sefydlog sy'n amlygu 1,313 o anheddau'r flwyddyn, neu 19,690 o anheddau dros gyfnod y CDLI diwygiedig, tra bo'r senario CG Ostyngol yn nodi 1,160 o anheddau'r flwyddyn neu 17,396 o anheddau dros gyfnod y CDLI diwygiedig.

## Casgliad

3.100 Byddai defnyddio'r senarios sy'n seiliedig ar gyflogaeth ar gyfer y CDLI diwygiedig a'r gofyniad am dwf uchel a nodir ynddynt yn arwain at strategaeth twf na ellir ei chyflawni ac sy'n anghynaliadwy ar gyfer y sir. Mae'r gofyniad am dwf mewn tai a nodir yn y CDLI mabwysiedig yn 1,013 o anheddau'r flwyddyn, ac un o'r rhesymau dros adolygu'r CDLI oedd ailystyried y gofyniad hwn am dai gan nad oedd y targedau twf tai'n cael eu cyrraedd.

3.101 Er y byddai'r senarios hyn yn uchelgeisiol o ran hybu dyheadau economaidd, byddai pennu gofyniad mor uchel am dwf yn arwain at strategaeth twf na ellir ei chyflawni ac sy'n anghynaliadwy.

**3.102 Ni fyddai'r senario hwn yn gwireddu Gweledigaeth nac yn cyflawni Amcanion Strategol y Cynllun**

## Crynodeb

3.103 Wrth ystyried potensial twf tai yn y dyfodol yn Sir Gaerfyrddin, mae Edge Analytics wedi nodi nifer o senarios demograffig ac economaidd gwahanol y gellid eu defnyddio ar gyfer Sir Gaerfyrddin yn ystod y cyfnod 2018-2033.

3.104 Mae'r senarios hyn wedi'u nodi drwy ddwy ffynhonnell amrywiol; astudiaeth 2018 a ddefnyddiwyd ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir ac astudiaeth wedi'i diweddarau 2019 sy'n darparu senarios ychwanegol i'w hystyried. At ei gilydd, pennwyd 3 senario posibl i helpu i gyflawni Gweledigaeth ac Amcanion Strategol y CDLI, sef Twf Poblogaeth Tymor Hir (astudiaeth 2018), Twf Poblogaeth dros 10 mlynedd, a Thwf Poblogaeth Tymor Hir o astudiaeth 2019.

3.105 Mae'r 3 senario demograffig fel a ganlyn:

Senario	Newid 2018-2033				Cyfartaledd bob blwyddyn			Cyfanswm	Cyfanswm
	Newid yn y Boblogaeth	Newid yn y Boblogaeth %	Newid yn yr Aelwydydd	Newid yn yr Aelwydydd %	Mudo Net	Anheddau (Cyfradd anheddau gwag y cyfrifiad)	Anheddau (Cyfradd anheddau gwag amgen)	Twf Anheddau (Cyfradd anheddau gwag y cyfrifiad)	Anheddau (Cyfradd anheddau gwag amgen)
Twf Poblogaeth Tymor Hir (o astudiaeth 2019)	17,811	9.6%	9,726	12%	1,516	692	671	10,375	10,065
Twf Poblogaeth Tymor Hir (astudiaeth 2018)	17,567	9.4%	9,555	11.7%	1,423	680	659	10,195	9,887
Twf Poblogaeth 10 mlynedd (astudiaeth 2019)	15,115	8.1%	8,538	10.6%	1,377	607	589	9,108	8,835

### Senario Demograffig a Ffefrir ar gyfer y CDLI.

3.106 O fewn Strategaeth a Ffefrir y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig, senario Twf Poblogaeth Tymor Hir o astudiaeth 2018 Edge Analytics oedd yn cael ei ystyried fel yr un mwyaf priodol i Sir Gaerfyrddin. Roedd y gofyniad hwn o ran twf yn defnyddio amcanestyniadau'r sir gyfan. Fodd bynnag, wrth ddod i gasgliad, nodir y dylid defnyddio'r senarios demograffig sydd y tu allan i Barc

Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, gan fod y Parc yn defnyddio ei strategaeth twf tai ei hun ar gyfer yr ardal.

3.107 Er bod y senario hwn wedi cael ei gefnogi, mae'r Cyngor wedi ceisio ystyried gwybodaeth a thueddiadau ychwanegol i ailwerthuso'r dull hwn. Rhagwelwyd y byddai'r rhagamcaniadau is-genedlaethol 2017 yn adlewyrchu'r amcanestyniadau swyddogol cyhoeddedig diweddaraf, ond mae'r oedi cyn eu cyhoeddiad yn golygu na ellir eu defnyddio ar gyfer CDLI Sir Gaerfyrddin.

3.108 Mae'r Twf Poblogaeth 10 mlynedd neu'r Twf Poblogaeth Tymor Hir o astudiaeth 2019 Edge Analytics wedi deillio o'r rhagolwg cadarnhaol yn amcanestyniadau canol blwyddyn 2018, ac adlewyrchir y rhain yn y canlyniadau twf anheddau o'r dda'u senario. Byddai'r lefel darged o 8,835 a 10,065 o anheddau yn cyflawni'r un effeithiau cadarnhaol cyffredinol o Dwf Poblogaeth Tymor Hir (2018).

3.109 Mae'r senario a ffefrir o Dwf Poblogaeth 10 mlynedd (2019) yn cynnwys bodloni uchelgeisiau economaidd y sir, a'r targedau creu swyddi a nodwyd yn y Cynllun Adfywio. Yn bwysicach na hynny, mae'r senario'n cyfateb i'r cyfraddau adeiladu yn y sir ers 2008. Y twf cyfartalog yn y senario hwn yw 589 o anheddau'r flwyddyn, a nifer yr anheddau a adeiladwyd ers 2008 yw 484. O fewn y 12 mlynedd o ddata, yn ystod 3 o'r blynnyddoedd mae mwy na 600 o anheddau wedi cael eu hadeiladu, felly dylai'r CDLI ddefnyddio ffigwr targed cadarnhaol ac uchelgeisiol ar gyfer tai i ddiwallu'r angen hwn. Byddai'r ffigwr hwn yn cael ei ddefnyddio hefyd i fodloni darpariaethau'r farchnad a thai fforddiadwy.

3.110 Yn ogystal, strategaeth y CDLI yw gwaredu terfynau datblygu o aneddiadau Haen 4 o fewn yr hierarchaeth aneddiadau, a byddai pennu ffigwr uchelgeisiol yn cefnogi'r potensial ar gyfer twf mewn ardaloedd gwledig.